
Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg –
2019-20

Cynnwys

Adran

- | | |
|------------------------|---|
| 1. Trosolwg | 1 |
| 2. Gwybodaeth am Ofcom | 2 |
| 3. Ein dull gweithredu | 3 |

Atodiad

- | | |
|--|---|
| A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau | 6 |
|--|---|

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynnydd blynyddol o ran cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg yn ystod 2019-20.¹

Dyfarwyd y ddeddfwriaeth hon, sef 'Safonau'r Gymraeg', i Ofcom [mewn hysbysiad cydymffurfio](#) gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2017. Roedd y rhain yn cynnwys 141 o ychwanegiadau at ein gwaith yn y Gymraeg, fel rhagor o ymchwil ymysg defnyddwyr a gwybodaeth am ein gwaith.

Rydym yn dal wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a galluogi pobl i gyfathrebu ag Ofcom yn yr iaith o'u dewis – boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.

Cyflawniad Ofcom o ran y Gymraeg

Mae Ofcom wedi ymrwymo i gyflawni ein rhwymedigaethau iaith Gymraeg. Rydym yn falch o'r ffordd rydym yn ymgorffori'r iaith Gymraeg yn ein gwaith mewn ffordd ymarferol. Mae ein gwaith yn y Gymraeg wedi parhau'n ddi-dor yn ystod cyfnod heriol Covid-19. Mae ein staff yn ymwybodol iawn bod angen cydymffurfio â'r safonau, yn deall hynny, ac wedi ymrwymo i wneud hynny. Rydym wedi llwyddo i addasu i gyfyngiadau Covid-19 ar ddigwyddiadau, er enghraifft, gan barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg. Fe wnaethom gynnal ein gweminar rithwir gyntaf yn gwbl ddwyieithog, sef 'Datgloi cysylltedd yng Nghefn Gwlad Cymru' fel rhan o sioe rithwir Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020.

Mae hysbysiad cydymffurfio terfynol Ofcom gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi cael awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Ofcom. Mae gennym Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg ar waith i reoli gweithgareddau Cymraeg Ofcom. Mae hyn yn cynnwys gofynion cyfieithu, yn ogystal â chynhyrchu ar-lein, mewn print ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Wrth gynhyrchu ein cyfathrebiadau Cymraeg, rydym yn teilwra ein dull i sicrhau bod cynnwys yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn cael eu cyfleu mewn ffordd ddifyr. Mae ein prif weithgareddau o ran gweithio yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Cyfieithu dros 735,000 o eiriau i'r Gymraeg, gan gynnwys cyhoeddiadau allweddol fel [Cysylltu'r Gwledydd – Cymru](#), sy'n cynnig dadansoddiad o'r gwasanaethau telegyfathrebu sydd ar gael yng Nghymru.
- Cynhyrchu sawl fideo Cymraeg yr ydym wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ein fideo [Dwi'n Creu](#) fel rhan o'n hymgyrch Ein Gwlad Ar-lein, a gafodd ei wyluo tua 800 o weithiau.
- Lansio gwefan ddwyieithog newydd, [Sgrîn Fach, Trafodaeth Fawr](#)
- Cynnal ymgyrch amlgyfrwng ddwyieithog, [Cadw'r Cysylltiad](#)
- Lansio [hyb cwynion digidol](#) newydd

Mae manylion llawn ein gweithgareddau Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn Adran 3.

¹ O fis Gorffennaf 2019 i fis Gorffennaf 2020.

2. Gwybodaeth am Ofcom

- 2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein pencadlys yn Llundain. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, a fideo ar-alw, telegyfathrebiadau llinellau sefydlog a symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yn y Deyrnas Unedig yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ar yr un pryd â sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu. Mae ein pwerau a'n dyletswyddau wedi cael eu gosod mewn nifer o Ddeddfau Seneddol.
- 2.2 Caiff Ofcom ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant am reoleiddio darlledu, rhwydweithiau cyfathrebiadau a gwasanaethau post. Mae ein cyllideb yn cael ei gosod gan Lywodraeth y DU ac, fel corff cyhoeddus, rydym yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflawni gostyngiadau gwariant tebyg-i-debyg mewn termau real.

Ofcom yng Nghymru

- 2.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn sicrhau bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein Swyddfeydd Cenedlaethol yn gallu defnyddio adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.
- 2.4 Mae swyddfa Ofcom Cymru yng Nghaerdydd ac mae'n cyflogi pedwar aelod o staff amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac un aelod o staff rhan-amser sy'n ddi-Gymraeg. Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i annog staff i ddysgu Cymraeg ar y fewnrwyd staff. Mae'r sefydliad hefyd yn talu am wersi Cymraeg i staff pan mae eu hangen am resymau busnes.
- 2.5 Ym mis Awst 2020, fe wnaeth Ofcom hysbysebu swydd newydd, Cyswllt y Gymraeg, lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn ein hallbwn dwyieithog a'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu ein gwaith yn y Gymraeg. Bydd y swydd newydd hon yn cefnogi Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg gyda'n gweithgareddau Cymraeg.

Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

- 2.6 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am nifer o flynyddoedd, gan wneud yn siŵr bod gennym ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Comisiynydd.
- 2.7 Rydym wedi mynychu sesiynau briffio wedi'u trefnu gan y Comisiynydd, wedi ymateb yn brydlon i bob ymholiad ac wedi trefnu cyfarfodydd â Chomisiynydd y Gymraeg i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ein gwaith.

3. Ein dull gweithredu

3.1 Nod Ofcom yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- cyflwyno deunydd yn weledol;
- pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus, a'i fformat cyhoeddi.

Mae ein dull wedi'i ddylunio i alluogi dinasyddion a defnyddwyr i ymgysylltu â materion cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Ein nod yw arloesi yn ein cyfathrebiadau ac annog mwy o ymgysylltu gan siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amryw o gyfranwyr allanol Cymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus, cynhyrchu cynnwys rhyngweithiol Cymraeg a chyhoeddi cynnwys sy'n ymwneud â Chymru ar gyfryngau cymdeithasol.

3.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn defnyddio maen prawf cyson. Os yw'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddinasyddion a busnesau yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

3.4 Fe wnaeth Ofcom gyfieithu tua 735,000 o eiriau i'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys adroddiadau, datganiadau newyddion, diweddariadau e-bost a thudalennau gwe².

3.5 Rydym wedi cynhyrchu sawl fideo Cymraeg ar amryw o themâu, gan gynnwys '[Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr](#)', [5G a Difrodi Mastiau](#) ac [Ein Gwlad Ar-lein](#), ac wedi rhannu'r rhain ar gyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Cafodd ein [fideo 'Dwi'n creu'](#), a oedd yn cynnwys crëwyr cynnwys ar-lein Cymraeg, ei wyllo bron i 800 o weithiau. Mae hyn yn dangos bod y gynulleidfa yn ffafrio cynnwys rhyngweithiol dros gyhoeddiadau mawr gyda llawer o destun – niferoedd bach sy'n darllen y rheini. Rydyn ni'n gobeithio datblygu mwy o gynnwys Cymraeg yn y dyfodol.

3.6 Cafodd ein Taflenni Gwaith Cymraeg ar Ddiogelwch Ar-lein eu dewis i'w cynnwys ar '[Hwb, gwefan adnoddau dysgu Llywodraeth Cymru](#)'. Gall athrawon ddefnyddio'r taflenni gwaith fel rhan o gynlluniau gwersi, gan ysbrydoli dosbarthiadau i gymharu eu canlyniadau â chanlyniadau ein harolwg Diogelwch Ar-lein yng Nghymru.

² O fis Gorffennaf 2019 i fis Gorffennaf 2020

- 3.7 Ym mis Chwefror 2020, fe wnaethom lansio ein gwefan ddwyieithog, '[Sgrîn Fach, Trafodaeth Fawr](#)'. Mae'r wefan yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad at amrywiaeth o ymchwil, i ddsygu mwy am waith yn y maes hwn, ac i roi eu barn ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'i gyflwyno i ni'n uniongyrchol.
- 3.8 Fe wnaethom lansio ein hymgyrch ddwyieithog, '[Cadw'r Cysylltiad](#)' ym mis Mawrth 2020, oedd yn rhoi cyngor i bobl ar sut i gadw mewn cysylltiad yn y cartref yn ystod pandemig y Coronafeirws. Fe wnaethom hefyd gynhyrchu ymgyrch hysbysebu ddwyieithog dros 10 wythnos yn hybu ein cynghorion 'Cadw'r Cysylltiad' ar gyfryngau cymdeithasol ac ar orsafoedd radio masnachol leol yng Nghymru. Drwy gydol yr ymgyrch yng Nghymru, cafwyd mwy o ymgysylltiad â'r cynnwys Cymraeg na'r cynnwys Saesneg ar gyfryngau cymdeithasol, gyda chyfradd clicio drwodd o 0.15%.
- 3.9 Fe wnaethom lansio ein [Hyb Cwynion Ar-lein Cymraeg](#) ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r wefan hawdd ei defnyddio hon yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'i nod yw helpu defnyddwyr i gael gwybod sut mae cwyno i Ofcom yn hawdd.
- 3.10 Mae ein digwyddiadau yn cynnwys cyfranogwyr a chyflwyniadau dwyieithog ac mae rhanddeiliaid yn dewis siarad Cymraeg yn y sesiynau holi ac ateb. Rydym ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ein digwyddiadau yng Nghymru. Dydy cyfieithu ar y pryd byth yn drafferth ac nid yw'n amharu ar lif y sgwrs. Mae digwyddiadau dwyieithog dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys ein digwyddiad Sgrîn Fach, Trafodaeth Fawr ym mis Rhagfyr 2019; ein digwyddiad Cynllun Blynyddol Ofcom ym mis Ionawr 2020; a'n gweminar rithwir gyntaf yn gwbl ddwyieithog, sef 'Datgloi cysylltedd yng Nghefn Gwlad Cymru' fel rhan o sioe rithwir Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y weminar rithwir, a oedd yn dangos ein bod yn gallu addasu i gyfyngiadau Covid-19 ar ddigwyddiadau byw gan barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg.
- 3.11 Mewn ymateb i ymchwiliad a hysbysiad o benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â chydymffurfiad Ofcom â safonau 10, 15 a 17 yng nghyswllt gwasanaethau ffôn, cafodd system llwybro galwadau newydd ei rhoi ar waith ym mis Ionawr 2020. Mae negeseuon awtomatig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn atgyfeirio galwadau yn y modd mwyaf priodol.
- 3.12 Rydym wedi cynhyrchu amryw o gyhoeddiadau o bwys yn y Gymraeg yn ddiweddar, gan gynnwys Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr – sef adolygiad pum mlynedd o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-18)³; Adroddiad Blynyddol Ofcom 2019-20⁴; Cysylltu'r Gwledydd – Cymru 2019⁵ a Chyfyngau'r Genedl Cymru 2020⁶.
- 3.13 Mae ein prif ymgyngoriadau⁷ yn cynnwys ffurflen ymateb Gymraeg er mwyn gwneud yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg yn gallu darparu adborth a sylwadau yn yr iaith o'u dewis.

³ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/192103/sgrin-fach-trafodaeth-fawr-adolygiad-pum-mlynedd.pdf

⁴ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0030/198516/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifol-2019-20.pdf

⁵ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0032/186476/2019-cysylltur-gwledydd-cymru.pdf

⁶ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0007/200500/cyfryngau-cenedl-2020-cymru.pdf

⁷ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements>

- 3.14 Yn olaf, mae Ofcom yn archwilio sut rydym yn ystyried buddiannau siaradwyr Cymraeg wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio. Fel yr amlinellir yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, rydym wedi mabwysiadu proses ffurfiol ar gyfer nodi canlyniadau i siaradwyr Cymraeg mewn ffordd fwy strwythuredig a mesuradwy wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisi. Rydym yn gwneud hyn drwy ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Safonau'r Gymraeg.⁸ Mae hwn wedi'i fodelu ar fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Ofcom i werthuso canlyniadau i gwsmeriaid.

Roedd ein Datganiad ar Leolrwydd ar Radio Masnachol⁹er enghraifft, yn nodi:

Wrth i ni benderfynu ar yr ardaloedd cymeradwy yng Nghymru, rydyn ni wedi rhoi ystyriaeth briodol i Safonau Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisiâu, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad cydymffurfio. Mae'r safonau llunio polisiâu yn berthnasol ar yr adeg pan fyddan nhw'n cael effaith, dim ots lle caiff y penderfyniad polisi ei wneud. Nid ydyn ni'n disgwyl y bydd unrhyw un o'r newidiadau i'r ardaloedd cymeradwy yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwynion

- 3.15 Nid yw Ofcom wedi cael unrhyw gwynion ynghylch ein gwaith o gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 3.16 Mae Gweithdrefn Gwyno Ofcom yn esbonio sut rydym yn ceisio delio â chwynion am ein safonau cyflenwi gwasanaethau. Gellir gweld y Gweithdrefnau Cwyno ar ein gwefan¹⁰ ac mae copi caled ar gael yn swyddfa Ofcom Cymru hefyd. Gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni ar unrhyw adeg i drafod materion yr iaith Gymraeg neu gwynion cysylltiedig, ac rydym yn eu hannog i wneud hynny ar y wefan.

⁸ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/103022/safonau-gymraeg-cynllun-gweithredu.pdf

⁹ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/139192/Lleolrwydd-ar-radio-masnachol.pdf

¹⁰ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales>

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A1.1 **Asesu a oes angen cyfieithu.** Os bydd dogfen (er enghraifft, dogfen ymgynghori, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we, neges drydar, neu e-bost diweddarau rhanddeiliaid) yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.2 **Trafodaethau rheolaidd am ofynion cyfieithu.** Mae penderfyniadau ynghylch cyfieithu'n cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfod wythnosol rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg a'n prif dîm cyfathrebiadau yn Llundain.
- A1.3 **Gweithio'n agos gyda'r timau polisi.** Mae'r person sy'n arwain prosiect yn cael gwybod gan y tîm cyfathrebiadau ac Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg bod angen cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen. Wedyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein hamserlen gyhoeddi i wneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn 'llai ffafriol', a'i bod yn cael ei chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.4 **Gweithio'n agos gyda'r cyfieithwyr.** Mae gan Ofcom Cymru berthynas waith gadarnhaol iawn â'n cyfieithwyr. Maen nhw'n cael gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl bod dogfen y bydd angen ei chyfieithu ar y ffordd, a chytunir ar amserlen dychwelyd i gyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Darperir amcangyfrif o nifer y geiriau hefyd lle bo hynny'n bosibl. Mae ein cyfieithwyr bob amser yn cyfieithu dogfennau Ofcom i'r safon uchaf, a hynny'n brydlon. Maen nhw hefyd yn cynnal geirfa o dermau cymhleth Ofcom er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cyfieithiadau. Eu nod yw gwneud yn siŵr bod cyfieithiadau i'r Gymraeg mor glir a chynhwysfawr â phosibl, a hynny drwy ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A1.5 **Gwirio'r ansawdd.** Mae dogfennau Cymraeg wedyn yn cael eu prawfddarlennu a'u golygu gan Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg, cyn cael eu hanfon ymlaen at y tîm cyfathrebiadau i'w cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.